## Is-Ddeddfau Cerbyd Hacnai

# IS-DDEDDFAU

Gwnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o dan Adran 68 o Ddeddf Cymalau Heddlu Trefol 1847 ac Adran 171 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1875 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili parthed cerbydau hacnai ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

CAERPHILLY
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CAERFFILI

# IS-DDEDDFAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

## CAERFFILI

Gwnaed o dan Adran 68 o Ddeddf Cymalau Heddlu Trefol 1847 ac Adran 171 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1875 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili parthed cerbydau hacnai ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

## DEHONGLIAD

**1.** Yn yr is-ddeddfau hyn drwyddynt draw :-

Golyga **"Y CYNGOR"** Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Golyga **"Y RHESTR BRISIAU"** y rhestr brisiau a bennwyd gan y Cyngor o dan Adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976..

Golyga **"Y BWRDEISTREF SIROL"** Fwrdeistref Sirol Caerffili.

---

## DARPARIAETHAU SY'N RHEOLI'R MODD Y DENGYS RHIF POB CERBYD HACNAI SY'N CYFATEB I RIF EI DRWYDDED

**2.** Bydd perchennog pob cerbyd hacnai yn:-

(a) cael y platiau a'r ddisg a ddarparwyd gan y Cyngor wedi'u gosod ar y tu allan a'r tu mewn i'r cerbyd lle y dangosir rhif y drwydded a roddwyd parthed y cyfryw gerbyd mewn modd fel a ganlyn, sef:-

*i* *y caiff y plât allanol ei osod a'i arddangos ar y tu allan ac ar gefn y cerbyd ac y gellir ei weld yn glir bob amser o'r cefn ac y caiff ei gadw mewn cyflwr glân;*

*ii* *y caiff y plât mewnol ei osod ar y tu mewn i'r cerbyd mewn cyfryw leoli ad fel y bo'n hawdd i'w weld gan y teithwyr;*

*iii* *y caiff y ddisg drwydded ei gosod a'i harddangos y tu mewn i'r cerbyd ar ochr chwith cornel isaf y ffenestr flaen fel y gellir ei weld yn glir o flaen y cerbyd gan bobl o'r tu allan i'r cerbyd.*

(b) ni fydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacnai yn:-

i *peri i'r rhif hwnnw gael ei guddio naill ai'n fwriadol neu'n esgeulus o olwg y cyhoedd tra bydd y cerbyd yn sefyll neu'n cael ei yrru yn edrych am gwsmer;*

ii *peri neu ganiatáu i'r cerbyd sefyll neu gael ei yrru yn edrych am gwmser gydag unrhyw baentiad, nod neu blât o'r fath wedi ei ddifwyno i'r fath raddau fel y bo unrhyw rif neu fanylyn perthnasol yn aneglur.*

---

## DARPARIAETHAU SY'N RHEOLI SUT Y CAIFF CERBYDAU HACNAI EU DODREFNU NEU EU DARPARU

**3.** Bydd perchennog cerbyd hacnai yn:-

(a) darparu modd digonol i alluogi unrhyw un sydd yn y cerbyd i gyfathrebu â'r gyrrwr;

(b) cadw'r to neu'r gorchudd mewn cyflwr i atal y glaw;

(c) darparu unrhyw ffenestri angenrheidiol a modd o agor a chau o leiaf un ffenestr ar bob ochr;

(ch) peri i'r seddi gael eu clustogi neu eu gorchuddio'n briodol;

(d) peri i'r llawr gael ei orchuddio gan garped, mat neu orchudd addas arall;

(dd) peri i'r gosodiadau a'r celfi yn gyffredinol gael eu cadw mewn cyflwr glân, eu cynnal a'u cadw yn dda, ac yn addas ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus ym mhob ffordd;

(e) darparu modd o roi bagiau yn sownd os yw'r cerbyd wedi ei wneud yn y fath fodd ag i gario bagiau;

(f) darparu diffoddydd tân effeithiol a blwch cymorth cyntaf wedi eu lleoli yn y fath le hygyrch ac ar gael yn hawdd i'w defnyddio;

(ff) darparu a chynnal golau trydan y tu mewn i'r cyfryw gerbyd;

(g) cario olwyn sbâr a theiar ac offer addas ar gyfer newid teiars a fydd wedi'u difrodi neu wedi cael twll ynddynt;

(ng) darparu o leiaf dau ddrws ar gyfer eu defnyddio gan deithwyr a gaiff eu cludo yn y cyfryw gerbyd a modd i'r gyrrwr gael mynd i mewn ac allan ar wahân.

**4.** Bydd perchennog cerbyd hacnai yn peri i fesurydd tacsi gael ei ddarparu yn y cerbyd a fydd wedi ei wneud, ei osod a'i gynnal yn y fath fodd ag i gydymffurfio â'r gofynion canlynol, sef yw:-

(a) y bydd allwedd, fflag neu ddyfais arall wedi'i osod ar y mesurydd a fydd yn gweithredu peirianwaith y mesurydd ac yn peri i'r gair **"HIRED"** ymddangos ar flaen y mesurydd tacsi;

(b) y bydd y cyfryw allwedd, fflag neu ddyfais arall yn gallu cael ei gloi yn y fath fodd fel na fydd peirianwaith y mesurydd tacsi yn weithredol ac na chaiff tâl ei gofnodi ar flaen y mesurydd tacsi;

(c) pan fydd peirianwaith y mesurydd tacs yn weithredol, caiff y tâl ei ddangos ar flaen y mesurydd mewn ffigurau clir na fydd yn uwch na'r gyfradd neu'r tâl y bydd gan y perchennog neu'r gyrrwr yr hawl i ofyn amdano na'i gymryd am hurio'r cerbyd yn ôl pellter yn unol â'r tariff a bennir gan y Cyngor;

(ch) y caiff y gair **"Fare"** ei ysgrifennu ar flaen y mesurydd tacsi mewn llythrennau eglur fel ei fod yn amlwg yn cyfeirio at y **"Fare"** a gofnodwyd arno;

(d) y caiff y mesurydd tacsi ei leoli yn y fath fodd fel y gall pob llythyren a ffigur sydd arno gael eu gweld yn eglur bob amser gan unrhyw un a gludir yn y cerbyd, ac i'r perwyl hwnnw bydd yn bosibl goleuo'r llythren nau a'r ffigurau yn addas yn ystod unrhyw gyfnod o hurio'r cerbyd;

(dd) y caiff y mesurydd tacsi a'r holl osodiadau arno eu gosod yn sownd i'r tacsi gan seliau neu offer eraill yn y fath fodd fel na fydd yn ymarferol i unrhyw un ymyrryd â hwy, ac eithrio drwy dorri, difrodi neu symud yn barhaol y seliau neu'r offer eraill.

**5.** Bydd perchennog pob cerbyd hacnai yn peri bod arwydd ar y to yn cael ei ddarparu ar gyfer y cyfryw gerbyd a gaiff ei lunio yn y fath fodd ag i gydymffurfio â'r gofynion canlynol, sef yw:-

(a) y bydd yr arwydd yn dwyn y geiriau **'FOR HIRE'** mewn llythrennau plaen o leiaf ddwy fodfedd o uchder;

(b) y bydd modd i'r arwydd gael ei weithredu yn y fath fodd ag i'w wneud yn amlwg i bobl y tu allan i'r cerbyd pa un a yw'r cerbyd wedi ei hurio ai peidio.

## DARPARIAETHAU SY'N RHEOLI YMDDYGIAD PERCHNOGION A GYRWYR CERBYDAU HACNAI SY'N MASNACHU O FEWN Y BWRDEISTREF SIROL YN EU PRIOD GYFLOGAETHAU AC SY'N PENNU A DDYLAI GYRWYR WISGO BATHODYNNAU A PHA RAI

**6.** Bydd gyrrwr cerbyd hacnai y darparwyd mesurydd tacsi ar ei gyfer:-

(a) pan fydd yn sefyll neu'n gyrru'r tacsi, yn cadw'r allwedd, fflag neu'r ddyfais arall a osodwyd yn unol â'r Is-ddeddf parthed honno ar glo yn y safle lle na chaiff unrhyw dâl ei gofnodi ar flaen y mesurydd tacsi;

(b) cyn gynted ag y bydd y cerbyd wedi ei hurio yn ôl pellter, a chyn dechrau'r daith, yn peri i beirianwaith y mesurydd tacsi gael ei weithredu drwy symud yr allwedd, fflag neu ddyfais arall, fel bod y gair **'HIRED'** yn ddarllenadwy ar flaen y mesurydd tacsi ac yn cadw peirianwaith y mesurydd tacsi yn weithredol tan ddiwedd y cyfnod hurio;

(c) yn peri bod wyneb y mesurydd tacsi yn cael ei gadw wedi ei oleuo'n gywir drwy gydol unrhyw ran o'r cyfnod hurio, ar ôl iddi nosi, sef yr amser rhwng hanner awr ar ôl machlud haul a hanner awr cyn i'r hau godi, a hefyd ar unrhyw amser arall ar gais yr huriwr.

**7.** Ni chaiff perchennog na gyrrwr cerbyd hacnai ymyrryd ag unrhyw fesurydd tacsi a ddarparwyd ar gyfer y cerbyd, nag â'r gosodiad ynddo nag â'r seliau a osodwyd arno na chaniatáu i unrhyw un arall wneud hynny.

**8.** Bydd gyrrwr cerbyd hacnai yn ymddwyn mewn modd cwrtais a threfnus a bydd yn cymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau diogelwch y bobl a gânt eu cludo yn y cerbyd neu a fydd yn mynd i mewn iddo neu'n disgyn ohono.

**9.** Bydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacnai sydd wedi cytuno i ddod â'r cer byd i fan benodol ar adeg a drefnwyd neu sydd wedi'i hurio i wneud hynny,  yn dod â'r cyfryw gerbyd yn brydlon i'r fan benodol ar yr adeg a drefnwyd oni bai bod rheswm digonol ganddo dros gael ei rwystro neu ei atal.

**10.** Ni fydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacnai yn cludo nifer fwy o bobl nac yn caniatáu iddynt gael eu cludo yn y cyfryw gerbyd na'r nifer o bobl sydd wedi'u dynodi ar y plât a osodwyd y tu allan i'r cerbyd.

**11.** Pan fydd yn sefyll neu'n gyrru'r tacsi, ac ar ôl cael ei hurio, bydd gyrrwr y cerbyd hacnai yn gwisgo ei fathodyn gyrrwr cerbyd hacnai a roddwyd iddo gan y cyngor mewn modd ag i fod yn weladwy i'r teithiwr.

**12.** Bydd gyrrwr cerbyd hacnai a gynhyrchwyd yn y fath fodd ag i gario bagiau, ar gais yr huriwr neu rywun sydd am hurio'r cerbyd yn:-

(a) cludo nifer rhesymol o fagiau;
(b) cynnig cymorth rhesymol wrth lwytho a dadlwytho'r bagiau;
(c) cynnig cymorth rhesymol wrth eu symud i fynedfa neu o fyned fa unrhyw adeilad, gorsaf neu fan lle y gallai godi neu ollwng y cyfryw berson.

## DARPARIAETHAU SY'N PENNU'R CYFRADDAU NEU'R TALIADAU SYDD I'W TALU AR GYFER CERBYDAU HACNAI O FEWN Y BWRDEISTREF SIROL AC SY'N SICRHAU BOD Y CYFRYW DALIADAU YN CAEL EU GWNEUD YN HYSBYS FEL SY'N OFYNNOL

**13.** Ni fydd hawl gan berchennog neu yrrwr cerbyd hacnai fynnu na chymryd tâl sydd yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ar flaen y mesurydd tacsi, ac eithrio unrhyw daliadau ychwanegol a godir sydd wedi'u hawdurdodi gan restr brisiau'r cyngor, sydd mewn grym ar y pryd, na ellir o bosibl eu cofnodi ar flaen y mesurydd tacsi.

**14.** Bydd perchennog y cerbyd hacnai yn peri i'r rhestr brisiau sydd mewn grym ar y pryd gael ei harddangos y tu mewn i'r cerbyd, mewn llythrennau a ffigurau eglur y gellir eu gweld yn glir.

**15.** Ni chaiff perchennog na gyrrwr cerbyd hacnai sy'n cario'r rhestr brisiau yn unol â'r is-ddeddf flaenorol beri neu ganiatáu yn fwriadol neu'n esgeulus i'r llythrennau neu'r ffigurau ar y datganiad gael eu cuddio nac eu gwneud yn annarllenadwy ar unrhyw adeg pan fydd y cerbyd yn cael ei yrru neu'n cael ei hurio.

## DARPARIAETHAU SY'N SICRHAU BOD UNRHYW EIDDO A ADEWIR YN DDAMWEINIOL MEWN CERBYDAU HACNAI YN CAEL EI GADW A'I DDYCHWELYD YN DDIOGEL AC SY'N PENNU'R TALIADAU I'W CODI PARTHED HYNNY

**16.** Bydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacnai yn syth ar ddiwedd y cyfnod hurio, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny, yn archwilio'r cerbyd yn ofalus am unrhyw eiddo a allai fod wedi'i adael ynddo yn ddamweiniol.

**17.** Os bydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacnai yn dod o hyd i unrhyw eiddo a adawyd yn ei gerbyd yn ddamweiniol gan unrhyw un a allai fod wedi'i gludo yn ei gerbyd neu os rhoddir yr eiddo hwnnw iddo gan rywun arall:-

(a) bydd yn mynd ag ef, cyn gynted â phosibl, neu o leiaf o fewn 48 awr, os na chaiff ei hawlio cyn hynny gan neu ar ran ei berchennog, i Swyddfeydd y Cyngor, Pontllanfraith, Coed Duon a'i adael yng ngofal y Swyddog sydd â gofal y swyddfa ar ôl iddo roi derbynneb amdano;

(b) bydd ganddo hawl i dderbyn oddi wrth unrhyw un y caiff yr eiddo ei ddych welyd iddo swm o arian sy'n gyfwerth â phum ceiniog am bob punt o'i werth amcangyfrifedig (neu'r tâl am y pellter o'r lle y daethpwyd o hyd i'r eiddo i swyddfeydd y Cyngor, pa un bynnag sydd fwy) ond dim mwy na phum punt.

## DIRWYON

Bydd pob person a fydd yn troseddu yn erbyn un o'r is-ddeddfau hyn yn agored i gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 2 ar y gyfradd safonol ac mewn achos o drosedd barhaus i ddirwy bellach sydd heb fod yn uwch na dwy bunt ar gyfer pob diwrnod y bydd y drosedd yn parhau ar ôl y gollfarn honno.

## DiDDYMU IS-DDEDDFAU

Caiff yr is-ddeddfau yn ymwneud â cherbydau hacnai a wnaed yn flaenorol gan gyn Gyngor Dosbarth Cwm Rhymni ar y 7fed Diwrnod o Ionawr, 1975 ac a gadarnhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y 7fed Diwrnod o Fawrth 1975 drwy hyn eu diddymu.

| | |
|---|---|
| Gosodwyd **Sêl Gyffredin Cyngor** | ) |
| **Bwrdeistref Sirol Caerffili** yma | ) |
| ar y **20fed** diwrnod hwn | ) |
| o **Ebrill 2001** | ) |
| ym mhresenoldeb: | ) |

I. G. Medlicott
Swyddog Awdurdodedig

Caiff yr Is-Ddeddfau Blaenorol eu cadarnhau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a ddônt i rym ar 1af Hydref 2001.

D. H. Jones
Pennaeth Is-Adran Polisi Cludiant — Dyddiedig 12 - 09 - 01